

## ADRODDIAD I'R CABINET

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	15 Medi 2020
<b>Aelod Cabinet:</b>	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Gwern ap Rhisiart – Swyddog Addysg Ardal Dwyfor Meirionnydd
<b>Teitl yr eitem:</b>	Ysgol Abersoch

---

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR:

Ceisir caniatâd Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen.

---

### 1. CYFLWYNIAD


- 1.1. Yn eu cyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Daeth y penderfyniad yn sgil pryderon diweddar ynglŷn â lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol.
- 1.2. Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl ar ganlyniad y trafodaethau lleol, a cheisio caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen.

### 2. CYD-DESTUN STRATEGOL

- 2.1 Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" ers ei mabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn yn Ebrill 2009. Nodir yn y strategaeth fod angen sicrhau modd i fedru rhoi sylw i sefyllfaoedd rhai ysgolion sy'n fregus.
- 2.2 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion "Addysg Addas i Bwrpas" sydd bellach yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r egwyddorion hyn yn gweithio tuag at resymoli ystod oedran o fewn dosbarthiadau cynradd a sicrhau amser digyswllt digonol i benaethiaid ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn yr ysgolion cynradd.

### 3. SEFYLLFA BRESENNOL YSGOL ABERSOCH

- 3.1 Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 8 oed. Trosglwydda'r disgyblion i Ysgol Sarn Bach ar ôl blwyddyn 3 er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.
- 3.2 Mae gan Ysgol Abersoch gapasiti o 42 (meithrin i flwyddyn 3), ac mae 8 disgybl llawn amser, ac 2 disgybl meithrin (rhan amser) ar y gofrestr (Medi 2020).



3.3 Fel y gwelir o'r graff uchod, mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. Mae'n debygol felly fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- **Niferoedd disgyblion** – Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin
- **Rhagamcanion niferoedd** – Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer)
- **Maint dosbarthiadau bychain** – 1 dosbarth gyda 10 disgybl (Medi 2020)
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau**
- **Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol** trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582
- **Cost fesul disgybl** yn Ysgol Abersoch yn £17,404 (2020-21), y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yw £4,198.

#### 4. DATBLYGIADAU DIWEDDAR

##### Sefydlu Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn Ysgol Abersoch

4.1 Yn ystod tymor yr Hydref 2019, bu i ran-ddeiliad Ysgol Abersoch sefydlu Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol i ymgymryd â'r dasg o sefydlu Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn yr ysgol.

4.2 Cynhaliwyd y sesiynau cyntaf o'r Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ym mis Chwefror eleni. Erbyn heddiw, mae Cylch Meithrin Abersoch yn rhan o'r cynllun gofal 30 awr am ddim i blant 3 a 4 oed, ac yn cynnal sesiwn cylch meithrin am 2 awr pum gwaith yr wythnos, yn ogystal â sesiwn clwb cinio dair gwaith yr wythnos.

## 5. TRAFODAETHAU LLEOL

- 5.1 Ym mis Gorffennaf 2019, bu i swyddogion o'r Adran Addysg gyfarfod â Chorff Llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn trafod sefyllfa fregus yr ysgol. Yn ystod y cyfarfod, nodwyd y bwriad i geisio caniatâd y Cabinet i symud y drafodaeth yn ei blaen trwy gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r Corff Llywodraethol a'r rhan-ddeiliad perthnasol i drafod opsiynau ar gyfer yr ysgol.
- 5.2 Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (17 Medi 2019), ym mis Hydref 2019 sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Abersoch (PAY). Gwahoddwyd holl aelodau'r Corff Llywodraethol, rhieni a staff yr ysgol yn ogystal â'r aelod etholedig lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth.
- 5.3 Ar 7 Hydref 2019, cynhaliwyd y cyntaf o dri chyfarfod PAY ymhle cafwyd trafodaeth gychwynnol am opsiynau. Eglurwyd fod angen ystyried opsiynau fyddai'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel y manylir ym mharagraff 3.3 uchod).
- 5.4 Cynhaliwyd yr ail gyfarfod PAY ar 13 Tachwedd 2019. Yn ystod y cyfarfod, gwerthuswyd cryfderau, cyfleoedd, gwendidau a bygythiadau'r holl opsiynau. Derbyniwyd sylwadau pellach gan y corff llywodraethol yn dilyn y cyfarfod yn ogystal.
- 5.5 Yn dilyn derbyn mewnbwn aelodau'r PAY, gwerthuswyd yr holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*, a'r heriau a nodir uchod (paragraff 3.3). Ystyriwyd casgliadau'r gwerthusiad, a mireiniwyd y rhestr o opsiynau i 3. Cyflynwyd yr opsiynau hyn yn ystod y trydydd cyfarfod PAY ar 6 Ionawr 2020 a nodwyd y bwriad i gynnal asesiadau pellach cyn dod i benderfyniad ar yr opsiwn a ffafrir.

## 6. GWERTHUSO OPSIYNAU

- 6.1 Yn unol â strategaeth "*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*" ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer y sefyllfa, gan gynnwys:
- Maint dosbarthiadau
  - Niferoedd disgyblion
  - Arweinyddiaeth a Staffio
  - Y Gymuned
  - Adnoddau Ariannol
  - Yr Iaith Gymraeg
  - Ffactorau Daearyddol
- 6.2 Gyda mewnbwn aelodau'r PAY yn ystod y cyfarfodydd lleol, crëwyd rhestr o opsiynau i'w hystyried ar gyfer yr ysgol:
- Gwneud dim (parhau hefo'r status quo)
  - Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-11 oed
  - Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-9 oed
  - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
  - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos
  - Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol
  - Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen

- Lleoli Canolfan Iaith ar safle Ysgol Abersoch
- Sefydlu cylch meithrin yn Ysgol Abersoch
- Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-9 oed + sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch

6.3 Yn dilyn gwerthuso manteision ac anfanteision yr opsiynau uchod yn erbyn y ffactorau yn y strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*, daeth 3 o opsiynau i'r amlwg fel y rhai a fyddai fwyaf hyfyr a realistig i gyfarch sefyllfa'r ysgol, sef:

- Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
- Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen

6.4 Gellir gweld cymhariaeth bellach o'r holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r strategaeth yn Atodiad 1 (Tabl Gwerthusiad Opsiynau). Fel yr eglurir ym mharagraff 4.1 uchod, mae sefyllfa'r ysgol wedi datblygu ers Medi 2019 yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol. Er mwyn sicrhau cymhariaeth deg, noder fod datblygiad y Cylch Meithrin a'i effeithiau posib wedi derbyn ystyriaeth o dan yr holl opsiynau, gan gynnwys y Status Quo.

## 7. CYMHARU OPSIYNAU

### 7.1 Gwneud dim – parhau hefo'r Status Quo:

- 7.1.1 Er bod yr achos dros newid eisoes wedi ei sefydlu, mae'r model 'Gwneud Dim' wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.
- 7.1.2 Byddai'r model yma yn golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Abersoch.
- 7.1.3 Fel y nodir uchod, agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol ym mis Chwefror 2020. Serch hynny, ac er yn cydnabod yr effaith gadarnhaol bosib gall lleoli Cylch Meithrin ar safle Ysgol Abersoch gael ar y niferoedd, nid oes modd gwarantu y byddai'n arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd.
- 7.1.4 Wedi pwysu a mesur sefyllfa ddiweddaraf yr ysgol yn erbyn y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r model yma yn ymateb yn ddigonol i sefyllfa fregus yr ysgol. Trwy wneud dim, byddai'r her o leihad mewn niferoedd, maint dosbarthiadau bychain a'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.

### 7.2 YR OPSIYNAU I'W HYSTYRIED YMHELLACH

#### 7.3 Newid ystod oed Ysgol Abersoch

- 7.3.1 Trafodwyd 2 opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol, sef ymestyn i 3-9 ac ymestyn i 3-11.
- 7.3.2 Dylid nodi mai'r opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9, gan gynnwys datblygiad y cylch meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma yn lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol yn sgil darparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael

ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 dalgylch Abersoch).

- 7.3.3 Wrth gymharu'r ddau opsiwn, daethpwyd i'r canlyniad mai'r opsiwn gorau ar gyfer ystyriaeth bellach oedd yr opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11. Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 am sawl rheswm, yn benodol:
- Ni ragwelir y byddai ychwanegu blwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.
  - Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.
  - Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.
- 7.3.4 Credir y byddai'r opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11 yn cynnig mwy o fanteision o safbwynt cyfle i godi niferoedd yr ysgol. Byddai'r opsiwn hefyd yn cysoni'r ystod oed gyda gweddill ysgolion y sir, ac yn golygu fod yr ysgol yn cynnig darpariaeth CA2 cyflawn.
- 7.3.5 Er mwyn i'r opsiwn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, byddai'n rhaid i'r cynnydd hwn fod yn un sylweddol. Serch hynny, mae'n debygol y byddai unrhyw gynnydd yn y niferoedd Ysgol Abersoch o ganlyniad i ymestyn yr ystod oed, yn achosi lleihad yn niferoedd Ysgol Sarn Bach, ac o bosib, yr ysgolion cyfagos.
- 7.3.6 Yn dilyn ystyriaeth bellach, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiad cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer yr ysgol, a gall gael effaith ar niferoedd disgyblion yr ysgolion cyfagos.

#### 7.4 Ffederaleiddio:

- 7.4.1 Fel y gwelir uchod (para. 6.2) trafodwyd ac ystyriwyd 3 math gwahanol o ffederaleiddio. Daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn oedd fwyaf rhesymol i'w hystyried ymhellach oedd yr opsiwn i ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos.
- 7.4.2 Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Abersoch trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol gyfagos dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau, ac arbenigedd.
- 7.4.3 Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn yn cyfarch yr her o leihad mewn niferoedd, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.
- 7.4.4 Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut byddai'r ddwy ysgol yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch, byddai'n rhaid sicrhau byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

7.4.5 Bu trafodaethau gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr y ddwy ysgol gyfagos (Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog), parthed yr opsiwn i sefydlu ffederasiwn gydag Ysgol Abersoch.

7.4.6 Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel o ddisgyblion, maint dosbarthiadau bychain a'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.

#### 7.5 Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen

7.5.1 Byddai'r model yma'n golygu cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach.

7.5.2 Ystyrir Ysgol Sarn Bach fel yr 'ysgol amgen' am y rhesymau canlynol:

- Ysgol Sarn Bach yw'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Abersoch. Mae'r ysgol wedi ei lleoli 1.4 milltir o safle Ysgol Abersoch.
- Mae Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion o Ysgol Abersoch ym mlwyddyn 4.
- Mae 40% o blant (3-8 oed) dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach.
- Mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti i dderbyn disgyblion presennol Ysgol Abersoch.

7.5.3 Manylir ar y cynnig yma ymhellach yn yr adran ddilynol.

### **8. YR OPSIWN A FFAFRIR**

8.1 O'r opsiynau a ystyriwyd, yr opsiwn a gaiff ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad pellach yw cau Ysgol Abersoch a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Caiff yr opsiwn hwn ei ffafrio am y rhesymau a ganlyn:

#### 8.2 Maint dosbarthiadau:

8.2.1 Mae gan Ysgol Abersoch un dosbarth, gyda 10 disgybl rhwng 3 ac 8 oed (Medi 2020). Cyfartaledd maint dosbarthiadau presennol Ysgol Sarn Bach yw 23. Byddai gwireddu'r cynnig yn golygu fod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran.

8.2.2 Yn Ysgol Sarn Bach, ceir dau ddosbarth, un gyda 22 disgybl rhwng 3 a 8 oed, ac un gyda 24 disgybl rhwng 8 ac 11 oed (Medi 2020). Os gweithredir y cynnig, bydd rhaid rhoi sylw priodol i unrhyw effeithiau posib ar faint dosbarthiadau er mwyn sicrhau'r cyfleodd a'r profiadau gorau i'r plant.

#### 8.3 Niferoedd Disgyblion

8.3.1 Mae niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch wedi amrywio dros y blynyddoedd, ond yn gyffredinol mae gostyngiad o 50% wedi bod yn y 5 mlynedd ddiwethaf. Yn ôl y rhagamcanion a grëwyd yn Medi 2020, rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau'n isel dros y tair blynedd nesaf. Gwelir isod (tabl 1) niferoedd Ysgol Abersoch ers Medi 2014 hyd at

ragamcanion Medi 2023. Nid yw'r ffigyrau isod yn cynnwys effaith bosib y Cylch Meithrin yn yr ysgol.

**Tabl 1:** Niferoedd Ysgol Abersoch (M – Bl.3)

Gwir Niferoedd ( <i>Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol – Medi</i> )							Rhagamcanion ( <i>Medi 2020</i> )		
2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
22	20	24	17	13	9	10	10	12	12

8.3.2 Mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti o 72 (M – Bl. 6), ac ym mis Medi 2020 roedd ganddi 45 disgybl llawn amser (derbyn – Bl.6) a 3 disgybl rhan amser (Meithrin). Gyda 24 o lefydd gweigion (M-Bl6), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol i dderbyn holl ddisgyblion presennol Ysgol Abersoch.

8.3.3 O ganlyniad i'r niferoedd isel, mae nifer o lefydd gweigion hefyd yn Ysgol Abersoch- o ddeutu 76% (32 mewn nifer). Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) Llywodraeth Cymru yn nodi fod "gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen... Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol". Ar hyn o bryd, rhwng Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, mae 56 (49%) o lefydd gweigion yn yr ardal. Byddai gwireddu'r opsiwn a ffafirir yn gostwng cyfanswm llefydd gweigion yr ardal i 14 (19%).

#### 8.4 Arweinyddiaeth a Staffio

8.4.1 Mae strwythur staffio presennol Ysgol Abersoch yn cynnwys un pennaeth llawn amser, athrawes rhan amser, athrawes CPA rhan amser, a chymhorthydd rhan amser. Mae gan y pennaeth ymrwymiad dysgu 70% o'r amser ac yn derbyn 30% o amser di gyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth.

8.4.2 Yn Ysgol Sarn Bach, ceir pennaeth, dwy athrawes rhan amser (cyfwerth ag athrawes llawn amser 1.0), a tri chymhorthydd rhan amser. Mae'r pennaeth yn dysgu 80% o'r amser ac yn derbyn 20% o amser digyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth.

#### 8.5 Adnoddau Ariannol

8.5.1 Mae amrediad eang yng nghost y disgybl yn yr ardal:

- Ysgol Abersoch - £17,404
- Ysgol Sarn Bach - £4,683
- Ysgol Foel Gron - £4,984
- Ysgol Llanbedrog - £4,274

*(Cyllideb 2020-21 – Seiliedig ar niferoedd Medi 2019)*

8.5.2 Golygai hyn fod y gost o addysgu disgybl yn Ysgol Abersoch dros £10,000 yn uwch na'r ysgolion cyfagos.

8.5.3 Yn ogystal, o safbwynt cost y disgybl, Ysgol Abersoch yw'r uchaf yn y sir. Cyfartaledd cost y disgybl yng Ngwynedd yw £4,198.

8.5.4 Gweler isod grynodeb o ddyraniad cyllidol Ysgol Abersoch o'i gymharu ag Ysgol Sarn Bach.

	Ysgol Abersoch	Ysgol Sarn Bach
<b>Dyraniad 2020-21</b>	£84,558	£228,890
<b>£ Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio (2020-21)</b>	£52,582	-
<b>Cyfanswm Dyraniad 2020-21</b>	£137,140	£228,890
<b>£ y disgybl (seiliedig ar niferoedd Medi 2019)</b>	£17,404	£4,683

8.5.5 Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm hwn eleni (2020-21) yw £52,582.

8.5.6 Nid yw Ysgol Sarn Bach yn derbyn swm ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth. Mae niferoedd disgyblion presennol yr ysgol yn denu cyllideb ddigonol i gynnal lefel staffio priodol.

8.5.7 Yn y flwyddyn ariannol 2020-21, dyrannwyd cyfanswm o £366,030 i'r ddwy ysgol. O safbwynt costau refeniw, rhag amcenir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £110,062, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (£14,000) - sef oddeutu £96,062 y flwyddyn.

## 8.6 Amgylchedd Dysgu

8.6.1 Mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch. Nodir asesiad cyflwr diweddaraf yr Adran Eiddo fod categori cyflwr Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn 'B'.

8.6.2 Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cymunedol ac yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg.

## 8.7 Y Gymuned

8.7.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith cymunedol fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith cymunedol ar y rhestr o opsiynau a nodir ym mharagraff 6.3. **Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.**

8.7.2 Yn gryno, nodai'r asesiad y byddai peth effaith negyddol ar y gymuned yn deillio o gau'r ysgol. Serch hynny, nodir fod 25 o'r disgyblion (M-BI.6) sydd yn byw yn nalgylch Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, ac felly, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol â'r ardal ehangach eisoes.



8.7.3 I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.

## 8.8 Yr Iaith Gymraeg

8.8.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnydd i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg ar y rhestr o opsiynau a nodir ym mharagraff 6.3. **Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.**

8.8.2 Nodir yr asesiad na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf iawn. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg. O gymharu, 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg.

8.8.3 Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant a hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant Cymraeg. Yn ogystal, yn 2019, llwyddodd yr ysgol i sicrhau gwobr aur Siarter Iaith Gymraeg. Mae'n bwysig felly bod y cynnig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn.

## 8.9 Ffactorau Daeryddol

8.9.1 Nodir y Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" y dylid ceisio cyfyngu teithio i uchafswm o 30 munud o deithio unffordd rhwng y cartref a'r ysgol. O weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai pob disgybl presennol yr ysgol o fewn cyrraedd rhesymol (llai na 30 munud o deithio) i'r ysgol amgen, sef Ysgol Sarn Bach.

8.9.2 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Abersoch yn derbyn cludiant i Ysgol Sarn Bach yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir.

## 9. **GOBLYGIADAU'R CYNNIG**

### 9.1 Dalgylchoedd mynediad i Ysgolion

9.1.1 Dylid nodi fod Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion dalgylch Ysgol Abersoch ar ddechrau'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 8 oed.

9.1.2 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dalgylch Ysgol Sarn Bach yn cael ei addasu i gynnwys ardal dalgylch presennol Ysgol Abersoch.

**Map 1: Dalgylchoedd presennol yr ardal**



**Map 2: Dalgylch Ysgol Sarn Bach os gweithredir y cynnig**



## 9.2 Cludiant

9.2.1 Fel nodir yn para. 8.9.2 uchod, pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Abersoch yn derbyn cludiant i Ysgol Sarn Bach yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir.

## 9.3 Ystyriaethau Staffio

9.3.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai goblygiadau staffio allasai arwain at ddiswyddiadau. Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau fyddai'n deillio o'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

## 10. YSTYRIAETHAU ERAILL

### 10.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018

10.1.1 Bydd unrhyw broses statudol yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018).

10.1.2 Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynnig, ystyriwyd a gwerthuswyd ystod o opsiynau ar gyfer yr ysgol, a cynhaliwyd cyfres o asesiadau effaith, gan gynnwys:

- Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg (gweler para. 8.8)
- Asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
- Asesiad o'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio
- Asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned (gweler para 8.7)

10.1.3 Mae'r asesiadau uchod i'w gweld yn **atodiad 2**.

### 10.2 Asesiad Cydraddoldeb

10.2.1 Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig - **gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2**.

10.2.2 Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisiau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

10.2.3 Wedi pwysu a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu.

10.2.4 Bydd y Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb.

### 10.3 Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

10.3.1 Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-23".

10.3.2 Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, deuir i'r casgliad fod y cynnig arfaethedig (fel y nodir yn para 8.1) yn cyd-fynd a 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd

ag amcanion llesiant y Cyngor. Bydd y cynnig arfaethedig yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, yn ogystal â chryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

### 10.3.3 Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

## 11. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

11.1 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a chanllawiau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Rhagwelir y bydd y cyfnod hwnnw yn cael ei gynnal yn yr wythnosau nesaf.

11.2 Wedi hynny, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, a phenderfynu a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ai peidio. Pe byddai Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi, caniateir cyfnod o 28 diwrnod i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad. Yn dilyn hyn, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymatebion iddynt.

## 12. BARN SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

"Mae cynnwys yr adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaeth Cyfreithiol.

Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb."

### Y Pennaeth Cyllid:

"Mae rhesymau amlwg (gan gynnwys rhai ariannol) yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Abersoch. Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sydd yn rhan 3.3 a 8.5.1-8.5.7 o'r adroddiad ac yn rhan 'Adnoddau Ariannol' o Atodiad 1 unai yn wir gostau cywir, neu yn amcangyfrifon teg (lle'n briodol). Byddai sefydlu'r drefniadaeth newydd (cau Ysgol Abersoch a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach) yn arbed £110,062 llai anghenion cludiant ychwanegol (amcangyfrif ar hyn o bryd oddeutu £14,000), sy'n golygu arbedion net blynyddol o tua £96,062 (fel nodir yng nghymal 8.5.7 o'r adroddiad)."

## **Atodiadau**

**Atodiad 1:** Tabl Gwerthusiad Opsiynau

**Atodiad 2:** Aseidiadau Effaith:

- Aseiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Aseiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Aseiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Aseiad Effaith leithyddol
- Aseiad Llesiant
- Aseiad Cydraddoldeb

**Atodiad 3:** Pecyn cefndirol gan gynnwys cyflwyniadau a chofnodion y cyfarfodydd lleol.